HEDDIW, DDOE AC YFORY

Croeso i'r rhifyn cyntaf o Gwaith Maes i'w gyhoeddi ar y we.

Y cyfrwng yn unig sydd wedi newid. Mae'r bwriad a'r cynnwys yr un fath, sef cynnig deunydd gwreiddiol i hybu a hwyluso'r gwaith o drosglwyddo egwyddorion addysg cynaladwyedd a'r amgylchedd i ystod eang o ddisgyblion. Oherwydd hyn, mae amrediad rhifo Gwaith Maes yn parhau'n ddifwlch, sydd yn golygu mai rhifyn 23 fydd hwn, y gwerifyn cyntaf.

Pam Heddiw, Ddoe ac Yfory?

Corlannau cain Cefn Garw

Y cysyniad o barhad a datblygiad sydd wedi esgor ar y teitl hwn i Gwaith Maes ar ei newydd wedd - troi treftadaeth heddiw yn gymynrodd y dyfodol. Wedi'r cyfan, dyna ydyw addysg yr amgylchedd a chynaladwyedd – arwain pobl i werthfawrogi a thrysori holl agweddau amrywiol natur a'r byd o'n cwmpas a'u diogelu i'r cenedlaethau i ddod.

Cytiau cynhanesyddol rhwng Blaen Nanmor a Chroesor

Pob hwyl, felly, wrth arbrofi efo gwerifyn cyntaf Gwaith Maes. Beth fydd eich ymateb? Hoffem wybod, felly cofiwch adael i ni wybod. Trowch at dudalen Athrawon i wybod mwy am ein cynlluniau, a chysylltwch â ni os cewch unrhyw anhawster.

Rhifyn Nesaf
Mai 2002

Meira Shakespear

Cyfrifoldeb athrawon yw asesu peryglon unrhyw weithgaredd neu ymweliad.